**Atodiad A: Y Broses ar gyfer Paratoi ac Adolygu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus**

1. **Paratoi:** Mae'r Awdurdod Lleol (ALl) yn paratoi i lunio strategaeth toiledau lleol
2. **Asesiad o Anghenion:** Mae'r ALl yn cynnal asesiad o'r angen am doiledau yn ei ardal drwy fapio'r toiledau sydd ar gael ar hyn o bryd at ddefnydd y cyhoedd, gan nodi bylchau drwy ymgysylltu â chymunedau a gweithio gyda phartneriaid i nodi atebion.
3. **Ymgynghoriad:** Mae'r ALl yn ymgynghori ag unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn debygol o fod â diddordeb mewn darparu toiledau yn ei ardal. Fel rhan o'r ymgynghoriad mae'n sicrhau bod drafft o'i strategaeth toiledau lleol newydd neu ddiwygiedig ar gael. Dylai'r cyfnod ymgynghori fod yn isafswm o 12 wythnos.
4. **Cyhoeddi:** Mae'r ALl yn cyhoeddi ei strategaeth newydd neu ddiwygiedig sy'n nodi ei asesiad o angen, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i ddiwallu'r angen hwnnw ac unrhyw wybodaeth arall y mae'n ei hystyried yn briodol.
5. **Datganiad Cynnydd Dros Dro:** Mae'r ALl yn paratoi ac yn cyhoeddi 'datganiad cynnydd dros dro' sy'n nodi'r camau a gymerwyd yn unol â'i strategaeth 2 flynedd o'r adeg y cyhoeddwyd hi ddiwethaf gan yr ALl neu 2 flynedd o ddyddiad yr adolygiad ôl-etholiad diwethaf o'i strategaeth. Mae'n rhaid cyhoeddi'r Datganiad Cynnydd Dros Dro o fewn 6 mis yn dilyn diwedd y cyfnod datganiad dros dro.
6. **Adolygiad a Datganiad Cynnydd Diwedd y Cyfnod:** Mae'r ALl yn adolygu'i strategaeth ac yn cynhyrchu datganiad cynnydd diwedd cyfnod o fewn blwyddyn i bob etholiad llywodraeth leol gyffredin.

Os oes angen newid y strategaeth, yna mae angen ymgynghori arni. Os nad oes angen ei newid yna mae'r Awdurdod Lleol yn cyhoeddi datganiad cynnydd o'r camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod.

(Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 - Rhan 8)

## Atodiad B: Asesiad o anghenion

### Asesiad o Anghenion

Er mwyn mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli a datblygu darpariaeth toiledau cyhoeddus Abertawe, mae angen ystyried nifer o ffactorau:

- Pa ddarpariaeth sydd gennym?
    - Ble mae'r toiledau hyn?
    - Pa fath o doiledau a ddarperir?
    - Pryd maen nhw ar agor?
- Oes unrhyw un dan anfantais yn sgîl ein darpariaeth bresennol?
    - Anghenion personol
    - Lleoliad daearyddol
- Oes unrhyw ffactorau ychwanegol a allai effeithio ar y galw am doiledau cyhoeddus?
- Oes darpariaeth amgen a allai ddiwallu'r anghenion a nodwyd?

<u>Darpariaeth</u>

O fis Medi 2022, mae gan Abertawe 34 o safleoedd lle mae toiledau'n cael eu hysbysebu fel rhai sydd ar agor i'r cyhoedd, ar wefan y cyngor. Mae 30 o'r rhain yn cynnwys toiledau i bobl anabl; Mae gan 11 ohonynt gyfleusterau Changing Places (gweler Atodiad Dd); ac mae 29 yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y cyngor.

Mae rhestr lawn o'r ddarpariaeth hon i'w gweld yn Atodiad D

<u>Daearyddiaeth</u>

Mae'r dosbarthiad toiledau cyhoeddus, yn bennaf, yn dilyn arfordir Bae Abertawe a Gŵyr gyda darpariaeth fewndirol yn Nhreforys, Clydach, Pontarddulais a Gorseinon. Yn gyffredinol, mae'r rhain wedi'u lleoli mewn cyrchfannau y bydd pobl o'r tu allan i'r ardal yn teithio iddynt, neu maent yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth, e.e. gorsafoedd bysus. Fodd bynnag, mae canolfannau poblogaeth sylweddol sy'n bodloni'r maen prawf hwn lle nad oes darpariaeth yn bodoli e.e. Tre-gŵyr, Sgeti a Chilâ. Does dim toiledau cyhoeddus i'r dwyrain o afon Tawe chwaith, er bod y prif gyrchfan siopa yn cael ei gwasanaethu gan ystod eang o fusnesau sy'n caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'u toiledau.

<u>Poblogaeth</u>

Er bod mynediad i doiledau cyhoeddus yn angen cyffredin ar draws ein poblogaeth, mae rhai grwpiau o fewn ein cymunedau sydd â mwy o angen, yn enwedig os ydynt am gael mynediad i fannau, a lleoedd, gyda lefel debyg o urddas, diogelwch a rhyddid ag eraill yn y boblogaeth. Yn benodol, mae hyn yn effeithio ar bobl anabl, eu gofalwyr, menywod (a phobl eraill sy'n cael mislif) ac aelodau hŷn ein cymunedau.

Mae data poblogaeth allweddol, sy'n effeithio ar y ddarpariaeth o doiledau, yn ymwneud ag oedran ac anabledd.

- Roedd poblogaeth Abertawe yng nghyfrifiad 2021 yn 238,500, gyda 48,900 (20.5%) yn 65 oed neu'n hŷn a 121,000 (50.7%) yn fenywod. Er mai'r rhagamcanion oedd y byddai poblogaeth Abertawe'n parhau i dyfu, mae wedi lleihau 500 (0.2%) ers Cyfrifiad 2011.
- Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd gan bron chwarter o breswylwyr Abertawe broblem iechyd tymor hir neu anabledd (gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu

'llawer' neu 'ychydig'), sef 55,700 o bobl neu 23.3% o'r cyfanswm. Nid oedd data 2021 wedi'i ryddhau pan luniwyd yr asesiad o anghenion hwn.

Twristiaeth

Ffactor ychwanegol ar alw, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, yw twristiaeth. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 4.79 miliwn o bobl wedi ymweld â Bae Abertawe yn 2019. O'r rheini, roedd 23% yn 65 oed neu'n hŷn a 10% yn nodi eu bod yn anabl.

**Atodiad C: Cynllun Gweithredu**

| | | Dyddiad | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| 1. | Strategaeth: Llunio a datblygu strategaeth toiledau cyhoeddus ar gyfer Dinas a Sir Abertawe | | |
| 1.1 | Paratoi Strategaeth Toiledau Cyhoeddus | Tachwedd 2020 | Paratowyd y Strategaeth ddrafft, gan gynnwys yr asesiad cychwynnol o angen, ac ymgynghorwyd arni. Yna cyflwynwyd adroddiad i Bwyllgor Datblygu Polisi yr Economi ac Isadeiledd Cyngor Abertawe |
| 1.2 | Datblygu Cynllun Gweithredu | Gorffennaf 2021 | Mae cynllun gweithredu wedi ei ddatblygu o'r ddogfen strategaeth ddrafft. |
| 1.3 | Adolygu cynnydd y Strategaeth | Hydref 2021 | Mae adolygiad o gynnydd y strategaeth wedi'i gynnal a pharatowyd adroddiad ar gyfer y Cabinet (gweler isod). |
| 1.4 | Strategaeth a chynllun gweithredu a fabwysiadwyd gan Gyngor Abertawe | Tachwedd 2021 | Cyflwynwyd y strategaeth, y cynllun gweithredu a'r adolygiad o gynnydd i'r Cabinet ar 18 Tachwedd 2021, a chytunwyd arnynt yn ffurfiol. |
| 1.5 | Adolygu'r Strategaeth yn ei chyfanrwydd | Mai 2023 | Adolygu'r ddogfen strategaeth, diweddaru'r asesiad o anghenion ac adolygu'r cynllun gweithredu. |
| 2. | Llywodraethu: Cytuno ar y trefniadau llywodraethu ar gyfer goruchwylio datblygiad a chynnydd y strategaeth | | |
| 2.1 | Sefydlu Gweithgor Mewnol | Awst 2021 | Yn unol â'r strategaeth ddrafft, sefydlwyd strwythur ffurfiol, gyda gweithgor mewnol yn hybu datblygiad y strategaeth ac yn cyflawni'r cynllun gweithredu. |
| 2.2 | Sefydlu Fforwm Rhanddeiliaid | Medi 2021 | Fe’i cefnogir gan grŵp rhanddeiliaid, sy'n cynnwys grwpiau allweddol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector. Ei ddiben yw hysbysu a llywio gwaith y gweithgor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. | Cyfathrebu: Datblygu dulliau ar gyfer cyfathrebu ynghylch darpariaeth toiledau cyhoeddus yn Ninas a Sir Abertawe a sut y caiff hyn ei ddatblygu i ddiwallu anghenion y preswylwyr, yr ymwelwyr a busnesau | | |
| 3.1 | Datblygu cynllun cyfathrebu | Awst 2021 | Mae gwefan y cyngor wedi'i diweddaru i ddarparu manylion clir ynghylch ble mae ein holl doiledau cyhoeddus, pa gyfleusterau sydd ganddynt a phryd y mae modd eu defnyddio.<br>Mae unrhyw gyfleusterau newydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael eu hychwanegu at y wefan.<br>Mae cyllid wedi'i gymeradwyo o'r Gronfa Adferiad Economaidd i wella'r arwyddion ynghylch cyfleusterau toiled cyhoeddus. Caiff hyn ei integreiddio gan fap newydd o Doiledau Abertawe sy'n cael ei ddatblygu gan y British Toilet Association. |
| 3.1.1 | Cynnydd y strategaeth | Tachwedd 2021 | |
| 3.1.2 | Argaeledd cyfleusterau | Medi 2021 | |
| 3.1.3 | Ymgysylltu yn y dyfodol | Tachwedd 2021 | |
| 4. | Cyfleusterau: Cynnal adolygiad trylwyr o'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus bresennol yn Ninas a Sir Abertawe. | | |
| 4.1. | Map o'r ddarpariaeth toiledau bresennol | Awst 2021 | Mae'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus bresennol wedi'i hadolygu a'i mapio.<br>Mae rhaglen gynhwysfawr o arolygon cyflwr yn mynd rhagddi ar hyn o bryd ym mhob safle a reolir gan Gyngor Abertawe. Defnyddir yr wybodaeth hon i lywio'r rhaglen cynnal a chadw a gwelliannau.<br>Mae gwaith wedi'i wneud i wella hygyrchedd y toiledau i'r cyhoedd mewn adeiladau cyhoeddus eraill.<br>Mae Cyngor Abertawe wedi buddsoddi £200,000 ers mis Ebrill 2020 i wella golwg ei gyfleusterau toiledau cyhoeddus ac i'w gwneud yn haws i'w glanhau'n dda. |
| 4.2. | Asesu cyflwr cyfleusterau toiledau cyhoeddus y cyngor | Ionawr 2022 | |
| 4.3. | Dichonoldeb | Ebrill 2022 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae staff glanhau toiledau wedi derbyn gwell cyfarwyddyd, hyfforddiant a chyfarpar er mwyn cynyddu ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth.<br>Mae prosiect peilot wedi'i ariannu gan y Gronfa Adferiad Economaidd i ddyblu pa mor aml y caiff toiledau eu glanhau mewn lleoliadau twristiaid allweddol ar adegau prysur y tymor a mesur ei effaith. |
| 5. | Datblygu: Datblygu cynllun i sicrhau bod darpariaeth toiledau cyhoeddus Abertawe yn diwallu anghenion presennol preswylwyr lleol, ymwelwyr a busnesau yn ogystal â'u hanghenion yn y dyfodol | | |
| 5.1. | Gwella mynediad i'r ddarpariaeth bresennol | Parhaus | Gosodwyd dau gyfleuster "Changing Places" newydd ochr yn ochr â’r cyfleusterau toiled presennol, gan ddarparu gwell hygyrchedd, diogelwch ac urddas, i bobl ag anghenion mwy cymhleth wrth ddefnyddio cyfleuster toiled.<br>Mae toiledau Marina Abertawe wedi'u hailagor, a bydd toiledau cyhoeddus newydd ar gael yn fuan fel rhan o'r Arena newydd.<br>Mae llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn addas ar gyfer eu cynnwys ar y rhwydwaith o doiledau cyhoeddus sydd ar gael. |
| 5.2. | Nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu darpariaeth newydd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae galw mawr e.e. canol y ddinas ac ardaloedd twristiaeth. | Parhaus | |
| 5.3. | Ymchwilio i arfer da mewn darpariaeth toiledau cyhoeddus a'i gymhwyso i ddatblygiad strategaeth a chynllun gweithredu Abertawe. | Parhaus | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. | Datblygu cynllun ariannu: Datblygu cynllun ariannu cynaliadwy sy'n galluogi Cyngor Abertawe i gynnal a datblygu'i ddarpariaeth o ran toiledau cyhoeddus yn unol â'r cynlluniau a nodir yn y strategaeth hon. | | |
| 6.1. | Nodi cyllidebau presennol a ddefnyddir i gynnal a gwella toiledau | Parhaus | Cafwyd cynnydd mewn buddsoddiad yng nghyflwr cyfleusterau toiled cyhoeddus, o gyllidebau presennol.<br>Gwnaed dau gais llwyddiannus i'r Gronfa Adferiad Economaidd am gyfanswm o £65,000. |
| 6.2. | Archwilio'r opsiynau ar gyfer ariannu datblygiad a chynnal a chadw cyfleusterau toiledau cyhoeddus ymhellach. | Parhaus | |

**Atodiad Ch: Ymgynghoriad**

Cafodd datblygiad y strategaeth gychwynnol ei lywio gan 2 ymgynghoriad cyhoeddus. Daeth yr un cyntaf i ben ar 29 Mawrth 2019 a daeth yr ail un i ben ar 18 Medi 2020.

Yn dilyn adolygiad o'r strategaeth, yn ystod hydref 2022, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 21 Tachwedd a 18 Rhagfyr 2022.0 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o gwestiynau, roedd rhai yn gofyn am "ymateb amlddewis" ac eraill yn caniatáu atebion ysgrifenedig.

**Ymatebion** - 43 (Sylwer: nid oedd pob ymatebwr wedi ateb pob cwestiwn).

**Rhesymau dros ymateb i'r ymgynghoriad:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Iechyd | – | 8 | (24%) |
| Mater pwysig | – | 11 | (33%) |
| Diddordeb | – | 5 | (15%) |
| Diffyg cyfleusterau | – | 6 | (18%) |
| Angen personol | – | 3 | (9%) |

| **Mae'r strategaeth yn:** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| • hawdd ei darllen | 80.8% | 19.2% | 0.0% |
| • hawdd ei deall | 88.5% | 11.5% | 0.0% |
| • wedi'i chynllunio'n dda | 80.8% | 15.4% | 0.0% |
| • addas o ran hyd | 77.7% | 14.8% | 7.4% |
| • llawn gwybodaeth | 73.1% | 26.9% | 0.0% |

**Ydych chi'n meddwl bod y strategaeth yn cwmpasu'r holl faterion angenrheidiol?**

Ydw - 15 (60.0%)
Nac ydw - 10 (40.0%)

**Yn ystod cyfnod heriol o ran cyllid y cyngor, mae gan y strategaeth y blaenoriaethau cywir:**

| | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Diogelu cyllidebau presennol a gwneud y defnydd gorau ohonynt | 83.4% | 9.5% | 7.1% |
| Canolbwyntio ar nodi a gwella ardaloedd lle mae pobl dan anfantais oherwydd diffyg darpariaeth toiledau | 97.6% | 2.4% | 0.0% |
| Datblygu cynigion i wella argaeledd a hygyrchedd toiledau cyhoeddus Abertawe | 95.2% | 4.8% | 0.0% |

**Ydych chi'n meddwl bod blaenoriaethau'r strategaeth yn cwmpasu'r holl faterion angenrheidiol?**

Ydw - 25 (65.8%)
Nac ydw - 13 (34.2%)

Darparodd yr ymatebion ysgrifenedig sylwadau a chwestiynau adeiladol. Mae'r rhain wedi'u grwpio dan y categorïau isod ac rydym wedi ceisio darparu gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r strategaeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn.

**Darpariaeth Un Rhyw**

Nid oes unrhyw fwriad, o fewn y strategaeth na'i chynllun gweithredu, i gael gwared ar gyfleusterau un rhyw presennol a bydd unrhyw ddatblygiadau newydd yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth gyfan.

Mae gan bawb yr hawl i gael mynediad i doiledau cyhoeddus yn ddiogel, a heb ofni niwed, waeth beth fo'u rhyw neu unrhyw nodwedd adnabod arall. Bydd dyluniad yr holl gyfleusterau newydd yn adlewyrchu'r hawl hon, a bydd pob ymdrech yn parhau i gael ei wneud i sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol mor ddiogel â phosib.

**Darpariaeth Hygyrch (i'r anabl)**

Mae gan y strategaeth flaenoriaethau i "***Ganolbwyntio ar nodi a gwella ardaloedd lle mae pobl dan anfantais oherwydd diffyg darpariaeth toiledau***" a ***"Datblygu cynigion i wella argaeledd a hygyrchedd toiledau cyhoeddus Abertawe."***

Ar hyn o bryd, dim ond 2 o'r lleoliadau toiledau cyhoeddus a reolir gan y cyngor sydd heb doiled hygyrch - Traeth Oxwich a Phen-clawdd.

Lle gallwn sicrhau cyllid i wella'n cyfleusterau toiledau cyhoeddus, mae buddsoddi mewn cyfleusterau hygyrch yn flaenoriaeth – fel y gwelir yn natblygiad cyfleusterau Changing Place newydd yn Knab Rock a Rhosili.

**Darpariaeth toiledau mewn ardaloedd lle mae galw mawr e.e. lleoliadau yng nghanol y ddinas ac mewn lleoliadau twristiaeth, a'r amseroedd pan fydd toiledau cyhoeddus ar agor**

Mae'n flaenoriaeth yn y strategaeth i **"Ddatblygu cynigion i wella argaeledd a hygyrchedd toiledau cyhoeddus Abertawe."**

Rydym yn cydnabod bod galw uwch am gyfleusterau yng nghanol y ddinas ac mewn ardaloedd twristiaeth allweddol, ac efallai na fydd oriau'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion pawb y mae angen iddynt defnyddio'r cyfleusterau hynny. Byddwn yn parhau i archwilio'r cyfleoedd a'r cyllid sydd ar gael i gefnogi'r flaenoriaeth hon. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda busnesau lleol a grwpiau cymunedol i naill ai sicrhau bod eu cyfleusterau eu hunain ar gael, neu i ddarparu cymorth i reoli toiledau cyhoeddus presennol.

**A ddylid cyflwyno taliadau am ddefnyddio toiledau cyhoeddus?**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynigion i gyflwyno taliadau yn unrhyw un o'n toiledau cyhoeddus presennol.

**Cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd wrth ddatblygu'r strategaeth**

Ar hyn o bryd mae gennym grŵp rhanddeiliaid sydd wedi gwahodd cynrychiolaeth o amrywiaeth o sefydliadau cynrychioliadol, gan gynnwys y rheini sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn, etc.

**Dylanwad ar ddatblygu strategaeth**

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion wedi'u cynnwys yn y dogfennau strategaeth diwygiedig ond mae mwy o bwyslais bellach wedi'i roi yn y cynllun gweithredu ar wella mynediad mewn ardaloedd lle mae galw mawr:

5.2 Nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu darpariaeth newydd, **yn enwedig mewn ardaloedd lle mae galw mawr e.e. canol y ddinas ac ardaloedd twristiaeth**

**Atodiad D: Toiledau Cyhoeddus Abertawe**

| Lleoliad | Oriau agor | Cyfleusterau | Gweithredwr |
|---|---|---|---|
| **Marchnad Abertawe**<br>SA1 3PQ | 09:30 – 16:30,<br>dydd Llun - dydd Sadwrn | Neillryw, Hygyrch a Changing Places | Y Cyngor |
| **Gorsaf Fysus y Cwadrant**<br>SA1 3AR | 08:00 – 20:30 | Dynion, Menywod, Hygyrch a Changing Places<br>Tâl o 30c | Staff y cyngor ar y safle |
| **Canolfan Siopa'r Cwadrant**<br>SA1 3QW | 09:00 – 18:00<br>dydd Llun - dydd Sadwrn;<br>10:30 – 17:00<br>dydd Sul | Dynion, Menywod a Hygyrch | Quadrant Shopping |
| **Canolfan Ddinesig**<br>SA1 3SN | 08:30 – 17:00 | Dynion, Menywod, Hygyrch a Changing Places | Y Cyngor |
| **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**<br>SA1 3RD | 10:00 – 17:00 | Dynion, Menywod, Hygyrch a Changing Places | Amgueddfa Genedlaethol y Glannau |
| **LC**<br>SA1 3ST | 06:30 – 20:00, dydd Llun - dydd Gwener;<br>08:00 – 20:30, dydd Sadwrn a dydd Sul | Dynion, Menywod, Hygyrch a Changing Places | LC |
| **Gorsaf Drenau Abertawe**<br>SA1 1NU | | Changing Places yn unig. (Nid yw'r prif doiledau'n rhai cyhoeddus, maent i deithwyr â thocynnau'n unig) | Gorsaf Drenau Abertawe |

| Lleoliad | Oriau agor | Cyfleusterau | Gweithredwr |
|---|---|---|---|
| **Oriel Gelf Glynn Vivian**<br>SA1 5DZ | 10:30 – 16:00,<br>dydd Mercher - dydd Sul (mynediad olaf 15:30) | Dynion, Menywod, Hygyrch a Changing Places | Staff y cyngor ar y safle |
| **Marina Abertawe**<br>SA1 1DN | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Neuadd y Ddinas**<br>SA1 4PE | 08:30 – 17:00,<br>dydd Llun - dydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc) | Dynion, Menywod, Hygyrch a Changing Places | Y Cyngor |
| **The Secret Swansea**<br>SA2 0AY | 09:00 – 17:00 | Dynion, Menywod, Hygyrch a Changing Places | The Secret |
| **Mond Clydach**<br>SA6 5LW | 09:00 – 17:00 | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Treforys**<br>SA6 8BW | 09:00 – 17:00 | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Ysbyty Treforys**<br>SA6 6NL | | Changing Places | Ysbyty Treforys |
| **Gorseinon**<br>SA4 4AA | 09:00 – 17:00 | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Pontarddulais**<br>SA4 8TH | 09:00 – 17:00 | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Parc Singleton**<br>SA2 8PY | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |

| Lleoliad | Oriau agor | Cyfleusterau | Gweithredwr |
|---|---|---|---|
| **Llyn Cychod Singleton**<br>SA2 8PY | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00yn y gaeaf. | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Parc Brynmill**<br>SA2 0AX | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | 2 doiled neillryw. 1 â chyfleusterau hygyrch | Y Cyngor |
| **Parc Cwmdoncyn**<br>SA3 5BE | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Lido Blackpill**<br>SA3 5AS | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Sgwâr Ystumllwynarth**<br>SA3 4BU | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Castell Ystumllwynarth**<br>SA3 4BA | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Bae Bracelet**<br>SA3 4JT | 24 awr | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Gerddi Southend**<br>SA3 4EA | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Knab Rock**<br>SA3 4EL | 08:00 – 20:00 yn yr haf;<br>08.00 – 16:00 yn y gaeaf. | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Gerddi Clun**<br>SA2 0PP | 24 awr | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |

| Lleoliad | Oriau agor | Cyfleusterau | Gweithredwr |
|---|---|---|---|
| **Langland**<br>SA3 4QP | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Bae Caswell**<br>SA3 3BS | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | Dynion, Menywod, Hygyrch a Changing Places | Y Cyngor |
| **Southgate**<br>SA3 2DH | Ar agor | Menywod a dynion yn unig | Pennard Stores |
| **Pentref Oxwich**<br>SA3 1LS | 09:00 – 19:00 yn yr haf;<br>09:00 – 17:00 yn y gaeaf. | Menywod a dynion yn unig | Y Cyngor |
| **Horton**<br>SA3 1LQ | 24 awr | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Porth Einon**<br>SA3 1NN | 24 awr | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Rhosili**<br>SA3 1PP | 24 awr | Dynion, Menywod a Hygyrch | Y Cyngor |
| **Penclawdd**<br>SA4 3YF | 09:00 – 17:00 | Menywod a dynion yn unig | Y Cyngor |

## Atodiad Dd: Modelau o Ddarpariaeth Toiledau

Mae nifer o fodelau darparu toiledau y bydd y grwpiau llywio a rhanddeiliaid yn parhau i’w hystyried wrth iddynt archwilio’r ffordd orau o roi Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Abertawe ar waith. Mae rhai o'r rhain yn ymwneud â darpariaeth arbenigol, ac eraill yn ymwneud ag ehangu'r rhwydwaith presennol o doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd.

### Changing Places

Mae cyfleuster toiled Changing Places wedi'i ddylunio ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu defnyddio toiledau hygyrch safonol. Mae'n darparu cyfleuster ystafell ymolchi i bobl sy'n profi anableddau lluosog a chymhleth ac sydd ag un neu ddau o gynorthwywyr gyda nhw.

I'w gofrestru fel toiled Changing Places, rhaid bod gan y cyfleuster yr offer canlynol:

- mainc newid maint oedolion y gellir addasu ei huchder
- teclyn codi ar drac o'r nenfwd
- digon o le i'r person anabl a hyd at ddau gynorthwyydd
- toiled wedi'i osod yng nghanol yr ystafell, gyda lle ar y ddwy ochr i gynorthwywyr
- sgrîn preifatrwydd
- rholyn tywelion papur llydan
- bin gwaredu gwastraff mawr
- basn, uchder addasadwy os yw’n bosib

Heb fainc newid addas, mae'n rhaid dodi llawer o bobl anabl ar y llawr i gael eu newid. Mae hyn yn anurddasol, yn anhylan ac yn rhoi cynorthwywyr mewn perygl o gael anaf. Os nad oes teclyn codi, mae cynorthwywyr unwaith eto’n cael eu rhoi mewn perygl wrth gael eu gorfodi i drosglwyddo person anabl heb gymorth teclyn rhwng cadair olwyn a thoiled.

Mae diffyg toiled a chyfleusterau newid yn golygu bod rhai pobl anabl yn aml yn gyfyngedig o ran y gweithgareddau sydd ar gael iddynt, neu'n cael eu hatal rhag mynd allan yn gyfan gwbl hyd yn oed. Gallant hefyd beryglu eu hiechyd a’u hurddas – neu iechyd ac urddas y bobl sy’n eu cynorthwyo – drwy ddefnyddio cyfleusterau anaddas.

Mae gwella argaeledd toiledau Changing Places mewn amrediad ehangach o leoliadau yn fater o gydraddoldeb; gwella tegwch o ran cael mynediad i leoliadau a gweithgareddau y mae'r cyhoedd yn eu cymryd yn ganiataol. Gallant wella ansawdd bywyd pobl yn helaeth, gan ganiatáu i bobl anabl a'u cynorthwywyr aros allan am gyfnod hwy a chymryd rhan mewn mwy o weithgareddau.

### Cynlluniau Toiledau Cymunedol

Mae Cynlluniau Toiledau Cymunedol yn drefniadau lle mae busnesau lleol yn hyrwyddo'u toiledau i aelodau'r cyhoedd ac yn caniatáu iddynt eu defnyddio (p'un a ydyn nhw'n gwsmeriaid ai peidio). Yn y gorffennol, bu cymhellion ariannol bach ar ffurf gostyngiadau trethi busnes, sydd wedi hwyluso hyn. Yn 2015, cafodd y cyllid penodol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hyn ei dynnu'n ôl.

Gall Cynlluniau Toiledau Cymunedol gynnig manteision i'r cymunedau busnes lleol drwy hyrwyddo eu cyfranogiad a chynyddu nifer yr ymwelwyr â'r busnesau hynny. Fel gyda chyrchfannau i dwristiaid, yn aml gall argaeledd hawdd toiledau fod yn ffactor penderfynu i bobl sy'n ceisio penderfynu ble maen nhw am dreulio'u hamser, ac wedyn eu harian.

Dyma ddull sydd wedi bod yn boblogaidd, ac yn llwyddiannus, mewn meysydd eraill; nid fel rhywbeth i gymryd lle toiledau cyhoeddus sy’n bodoli eisoes, ond fel ffordd o ychwanegu at y ddarpariaeth honno a gwella hygyrchedd toiledau ardal.

**Codi tâl am doiledau**

Mae codi tâl am doiledau cyhoeddus yn fater dadleuol, yn enwedig lle mae'r ddarpariaeth wedi bod am ddim o'r blaen. O ystyried y cyfyngiadau ariannol y mae cynghorau'n parhau i'w hwynebu, mae'n rhywbeth y mae'n rhaid ei adolygu'n rheolaidd.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi mabwysiadu hyn fel ffordd o ddarparu toiledau mewn mwy o leoliadau, tra bod eraill wedi’i ddefnyddio fel ffrwd refeniw i gynnal lefel y ddarpariaeth bresennol.

Mae'r unig doiledau cyhoeddus yn Abertawe, lle codir tâl, yng Ngorsaf Fysus y Cwadrant.

Mae'n fater o gadw'r ddysgl yn wastad mewn modd sensitif a rhaid ailedrych arno'n rheolaidd, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau yno i gynnal buddsoddiad yn y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus.

**Trosglwyddo Asedau**

Mae rhai o doiledau cyhoeddus Abertawe mewn lleoliadau sydd â gwerth masnachol posib. Yn y gorffennol, mae hyn wedi arwain at reolaeth y cyfleusterau yn cael eu trosglwyddo i fusnes neu sefydliad lleol, gydag amodau prydles yn diogelu'r gwaith o'u cynnal a'u cadw e.e. Toiledau Cyhoeddus Southgate. Drwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i drydydd parti, mae'n rhyddhau adnoddau ar gyfer gwaith cynnal a chadw a glanhau i ganolbwyntio ar weddill y stoc toiledau cyhoeddus.

Dyma ymagwedd y mae'r cyngor yn parhau i'w harchwilio.